**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Effaith Pandemig COVID-19 ar Dreftadaeth, Amgueddfeydd ac Archifau**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r saith argymhelliad:

**Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i wario'r cyfan o'r £59 miliwn o arian ychwanegol gan Lywodraeth y DU ar gefnogi unigolion a sefydliadau yn y sector diwylliannol, y celfyddydau a threftadaeth.**

**Ymateb:** Derbyn

Ar 30 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gronfa Adferiad Diwylliannol gwerth £53 miliwn i roi cefnogaeth i'r sector a'i gynnal oherwydd yr heriau parhaus sy'n deillio o bandemig COVID-19. Bydd y Gronfa yn rhoi cefnogaeth hanfodol i theatrau, lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, orielau, archifau, llyfrgelloedd, digwyddiadau a gwyliau, sinemâu annibynnol sydd i gyd wedi colli refeniw sylweddol oherwydd y pandemig. Bydd yr arian hefyd yn helpu sefydliadau ac unigolion yn y sector.

Mae tair elfen ategol i'r gefnogaeth; arian, i ddiogelu sefydliadau cynaliadwy a chynifer o swyddi yn y sector diwylliant â phosibl, contract diwylliannol, i ddefnyddio'r arian i ysgogi newid trawsnewidiol a chefnogi ffyrdd newydd o weithio a map ffordd i ailagor, er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth yn cyd-fynd ag ailagor yn ddiogel cyn gynted â phosibl.

O'i ystyried ochr yn ochr â'r pecyn ariannu portffolios gwerth £18 miliwn a gyhoeddwyd ar ddechrau mis Ebrill i gefnogi'r ymateb brys, mae arian Llywodraeth Cymru i'r sector diwylliant eleni wedi mynd y tu hwnt i'r cyllid canlyniadol a gafwyd. Mae cefnogaeth bellach hefyd wedi'i darparu i bob rhan o'r sector drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd.

**Goblygiadau ariannol**: Dim.

**Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y DU i barhau â'r Cynllun Cadw Swyddi y tu hwnt i fis Hydref 2020 ar gyfer sefydliadau treftadaeth, amgueddfeydd ac archifau na allant ailagor yn llawn eleni.**

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, wedi cyflwyno sylwadau yn rheolaidd i Ganghellor y Trysorlys gan annog Llywodraeth y DU i ymestyn y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig. Arweiniodd y sylwadau hyn at y pecyn diwylliant gwerth £1.75 biliwn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Gorffennaf.

**Goblygiadau ariannol**: Dim.

**Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan amgueddfeydd, archifau a safleoedd treftadaeth adnoddau digonol, o ran arbenigedd a seilwaith, i ddarparu mynediad digidol i'w casgliadau, a chyfle i'w defnyddio ar-lein.**

**Ymateb:** Derbyn

Mae'r Gronfa Adferiad Diwylliannol a lansiwyd yn ddiweddar yn darparu mynediad at gyllid ar gyfer mentrau digidol er mwyn cynyddu mynediad ar-lein ac ymgysylltu â chasgliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda chyrff yn y sector er mwyn adolygu blaenoriaethau ar gyfer datblygiadau digidol a helpu'r sectorau i gael gafael ar yr arbenigedd a'r hyfforddiant angenrheidiol.

Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynlluniau Achredu Gwasanaethau Amgueddfeydd ac Archifau yng Nghymru. Cydnabyddir bod mynediad digidol ac ymgysylltu ar-lein yn rhan annatod o'r gwasanaethau a ddarperir.

Mae Cadw yn datblygu adnoddau digidol ar-lein newydd yn barhaus er mwyn annog pobl i ymgysylltu â diwylliant Cymru. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ar adnoddau digidol, rhannu gwybodaeth, casgliadau, safleoedd ac arbenigedd, er enghraifft, adnodd Oes y Tywysogion ar wefan Hwb. Mae Cadw hefyd yn cydweithio â phartneriaid er mwyn creu cyfleoedd newydd i gael mynediad at dreftadaeth ac ymgysylltu â hi megis gwirfoddoli o bell, darganfod treftadaeth o fewn 15 munud i garreg eich drws a Minecraft treftadaeth.

Eleni, yn lle digwyddiad ffisegol Drysau Agored, bydd Cadw yn cynnal gŵyl ar-lein. Yn ystod mis Medi, bydd pobl yn gallu manteisio ar deithiau rhyngweithiol o amgylch safleoedd ar-lein, profiadau panorama ac ymweliadau â safleoedd model 3D rhithwir sy'n cynrychioli 10 o henebion mwyaf ysblennydd Cadw – gan gynnwys Castell Coch a Chastell Harlech.

Mae Gŵyl Amgueddfeydd Cymru, a gynhelir am wythnos yn ystod gwyliau hanner tymor yr ysgol ym mis Hydref ac a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, yn cael ei datblygu eleni fel gŵyl ddigidol yn bennaf. Mae hyn yn arbennig o bwysig eleni am ei bod yn gyfle i dynnu sylw at y ffaith bod yr amgueddfeydd yn dal i fodoli a'u bod yn rhan bwysig iawn o'u cymuned leol, hyd yn oed pan fydd drysau rhai ohonynt ar gau'n ffisegol.

**Goblygiadau ariannol**: Dim.

**Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru lunio strategaeth ar gyfer gwella mynediad digidol i'n casgliadau:**

- **sydd wedi'i chynllunio, ei hariannu'n briodol ac sy'n cynnig gweledigaeth;**
- **sydd wedi'i datblygu ochr yn ochr â darparwyr addysg i gyflawni'r Cwricwlwm Cenedlaethol; ac**
- **sy'n cydnabod y buddion i iechyd meddwl a chorfforol, ac sy'n ceisio sicrhau canlyniadau i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.**

**Ymateb:** Derbyn

Yn ddiweddarach eleni, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ein 'blaenoriaethau diwylliannol' gan nodi blaenoriaethau a chyfeiriad y cytunwyd arnynt ar gyfer diwylliant a chwaraeon drwy gydol y flwyddyn nesaf a thu hwnt. Bydd cynllun cyflawni cysylltiedig, a ddatblygir ar y cyd, yn cytuno ar gamau gweithredu ac

ymrwymiadau gan bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys datblygiadau digidol.

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu grant refeniw i Lyfrgell Genedlaethol Cymru er mwyn cynnal a datblygu'r Gwasanaeth Llyfrgell Digidol Cenedlaethol. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu mynediad o bell ar-lein am ddim at amrywiaeth eang o gynnwys na fyddai llawer o unigolion fel arfer yn gallu cael mynediad ato gan ddefnyddio adnoddau electronig oherwydd y gost.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru £250,000 o gyllid ychwanegol tuag at adnoddau llyfrgell digidol a alluogodd lyfrgelloedd cyhoeddus i ddarparu adnoddau ychwanegol yn ystod y pandemig ac sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr unigolion sy'n manteisio ar adnoddau digidol llyfrgelloedd. Ym mis Gorffennaf 2019, lawrlwythwyd 20,146 o e-lyfrau. Ym mis Gorffennaf, roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i 46,333.

Mae Cadw yn cydweithio â Hwb a rhanddeiliaid yn y cwricwlwm er mwyn datblygu adnoddau sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd a helpu i ddiwallu'r angen am ddulliau addysgu newydd sy'n ofynnol oherwydd pandemig y Coronafeirws a'r angen i ymgorffori dull dysgu cyfunol hyd y gellir rhagweld.

Mae Cadw yn cefnogi iechyd drwy ddarparu gweithgareddau ac ymchwiliadau i hybu iechyd meddwl ochr yn ochr â datblygu gwirfoddoli o bell, a allai gysylltu â phrosiectau megis Treftadaeth 15 Munud, gan ddenu gwirfoddolwyr a allai fel arall fod yn teimlo'n ynysig.

Mae amgueddfeydd a sefydliadau diwylliannol cenedlaethol a lleol wedi darparu adnoddau, digwyddiadau a gweithgareddau ar-lein er mwyn cefnogi dysgu, addysg a mwynhad yn ystod y pandemig.

Fel rhan o gynllun Achredu Amgueddfeydd y DU gyfan, a reolir yng Nghymru gan yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon, mae ymgysylltu â'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn rhan annatod. Mae amgueddfeydd yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau megis blychau hel atgofion, gweithdai iechyd meddwl ac ati. Mae llawer wedi cael hyfforddiant i fod yn ystyriol o ddementia. Mae prosiectau wedi'u hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.

**Goblygiadau ariannol**: Dim.

**Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r ffordd y gwneir penderfyniadau ar gyllid i amgueddfeydd, llyfrgelloedd a safleoedd treftadaeth gan ystyried cynnydd mewn darpariaeth ddigidol a gwneud iawn am y gostyngiad mewn incwm masnachol.**

**Ymateb:** Derbyn

Mae'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn cynnwys darpariaeth i gyrff treftadaeth wneud cais am gymorth ariannol er mwyn gwella eu gallu, eu hadnoddau a'u gwasanaethau digidol er mwyn gwneud iawn am y ffaith bod llai o fynediad ffisegol at dreftadaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cefnogi datblygiad gwasanaethau treftadaeth digidol gwell ym mhob rhan o'r sector ers blynyddoedd lawer. Yn 2019-20, roedd hyn

yn cynnwys cymorth i'r Comisiwn Brenhinol er mwyn iddo greu llwyfan digidol newydd ar gyfer adnoddau ar-lein Coflein. Disgwylir iddo fynd yn fyw yn 2021 a bydd yn paratoi'r ffordd ar gyfer rhagor o welliannau.

Mae Cymru yn unigryw ymhlith gwledydd y DU am ein bod yn rhoi diogelwch statudol i'n Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Rheolir y cofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru gan bedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Ranbarthol Cymru. Maent wedi'u creu o ganlyniad i ddegawdau o ymchwil ac maent ar gael i'r cyhoedd ar-lein drwy wefan Archwilio. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i'r Ymddiriedolaethau er mwyn iddynt reoli a gwella'r adnodd hollbwysig hwn sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.

**Goblygiadau ariannol**: Dim.

**Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu dangosyddion perfformiad allweddol y sector hwn i annog:**

- **mwy o gydweithredu o fewn y sector; a**
- **darparu canlyniadau ym maes iechyd, addysg, mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol.**

**Dylai Llywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod gan y sector ddigon o adnoddau i gyflawni'r amcanion hyn.**

**Ymateb:** Derbyn

Mae'r Is-adran Diwylliant a Chwaraeon yn gweithio'n agos gyda chyrff yn y sector er mwyn cefnogi cydweithio rhwng ein hamgueddfeydd a'r sector archifau a llyfrgelloedd a chyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Cymru yn cael budd o nifer mawr o gyfleoedd i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. Un enghraifft o hyn yw Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol a arweinir gan Cadw. Fforwm cenedlaethol yw hwn, sy'n cyfuno cyrff yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y Comisiwn Brenhinol, Amgueddfa Cymru, Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a'r Parciau Cenedlaethol ac sy'n dod â nhw at ei gilydd gyda chyrff megis y Loteri Genedlaethol, CGGC ac Amgylchedd Naturiol Cymru.

Mae'r grŵp yn cydweithio er mwyn rhannu gwybodaeth a phrofiad ac mae wedi bod cael cryn lwyddiant.

Enghraifft arall o gydweithio da rhwng pob rhan o'r sector yw cynhadledd flynyddol 'Gorffennol Digidol' a gynhelir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Cynhelir cynhadledd 2021 yn rhithwir gyda chyfuniad o bapurau a gweithdai ar-lein i ystyried yr arolwg digidol diweddaraf, rheoli data, technegau archifo a dehongli a'r defnydd ymarferol ohonynt mewn arolygon, gweithgarwch dehongli, addysg a chadwraeth ym maes treftadaeth.

Pennir cyllidebau yn y dyfodol gan ganlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a chyllideb ddrafft eleni.

**Goblygiadau ariannol**: Dim.

**Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ddatgan sut y bydd unrhyw arian ychwanegol ar gyfer y sector diwylliannol yn cael ei ddefnyddio i liniaru'r achosion o allgáu cymdeithasol a gwella mynediad i'n safleoedd treftadaeth, ein llyfrgelloedd a'n hamgueddfeydd.**

**Ymateb:** Derbyn

Fel rhan o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol gwerth £53 miliwn, rydym wedi cyflwyno 'Contract Diwylliannol'. Bydd hyn yn annog y rhai sy'n derbyn y cyllid i sicrhau y caiff buddsoddiad cyhoeddus ei ddefnyddio at ddiben cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys meysydd megis:

- Gwaith Teg
- Amrywiaeth byrddau – rhyw, y Gymraeg, cynrychiolaeth o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac ati.
- Staff a gedwir i gefnogi mentrau ehangach e.e. olrhain cysylltiadau i gefnogi'r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu
- Presgripsiynu cymdeithasol
- Cefnogi mentrau sy'n ymwneud ag iechyd â'r celfyddydau

Mae Cadw yn gweithio gyda Race Council Cymru i gynllunio ymweliadau gan gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac mae'n ymchwilio i gymeriadau hanesyddol o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n gysylltiedig â safleoedd Cadw. Bydd Cadw yn parhau â chynlluniau i hyrwyddo mynediad a mynediad am ddim i grwpiau dan anfantais er mwyn sicrhau nad yw prisiau mynediad yn rhwystr i drigolion Cymru a chynulleidfaoedd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae mynediad i 102 o'r 130 o safleoedd Cadw am ddim i bawb.

**Goblygiadau ariannol**: Dim.

**Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried y sylwadau gan randdeiliaid ynghylch yr angen i hyrwyddo lleoliadau treftadaeth ac amgueddfeydd llai o faint ar adeg pan fo pobl, o bosibl, yn amharod i fynd i mewn i leoliadau llai o faint a phan fo ymwelwyr rhyngwladol yn cadw draw. Galwodd y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwiliad am ymdrech ar y cyd i ddatblygu twristiaeth ddomestig yn seiliedig ar ein treftadaeth a'n hamgueddfeydd. A allwch roi gwybod i'r Pwyllgor am y ffyrdd y gellid gwneud hyn?**

Bydd gwell integreiddio ag ymgyrchoedd marchnata Croeso Cymru yn canolbwyntio ar dreftadaeth megis ymgyrch rhoi sicrwydd 'Good to Go'.

Mwy o gydnabyddiaeth ar ran Croeso Cymru bod gwir angen cynnwys amgueddfeydd llai o faint fel rhan o'i ymgyrchoedd marchnata a bod manteision i hynny. Byddai hyn yn fuddiol i'r amgueddfeydd ac i bobl sy'n ymweld ag ardal, am eu bod yn atyniad allweddol mewn llawer o drefi bach.

Defnyddio fideos ar y cyfryngau cymdeithasol i ddangos i ddarpar ymwelwyr yr hyn y dylent ei ddisgwyl gan ymweliad, am fod mesurau cadw pellter cymdeithasol bellach ar waith, e.e. taith dywysedig sy'n dangos marciau ar y llawr a gorsafoedd diheintio ac ati.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi Gŵyl Amgueddfeydd Cymru yn ystod mis Hydref, fel y nodwyd uchod.